Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

10. Hyrwyddo a marchnata

10.8 Fformat a iaith gyraeddadwy

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan beth ddylai mudiadau wneud i sicrhau fod eu gwybodaeth yn gyraeddadwy at bawb.

Mae 'cyraeddadwy' yn golygu:

- gwybodaeth a ellir dod o hyd iddi'n hawdd
- gwybodaeth a geir mewn ffurf neu fformat ffafriol
- gall defnyddwyr ei ddeall, a
- gellir ei gyrraedd yn gorfforol.

Dylai'ch bwriadau fod yn:

- osgoi rhwystrau i gyrraedd gwybodaeth ble'n bosib
- cydymffurfio gyda holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol yn nhermau cyrraedd y wybodaeth
- sicrhau fod ein staff yn ymwybodol o'r opsiynau ar gyfer darparu gwybodaeth a hyrwyddo'r opsiynau hynny.

Sut ydych chi'n rhoi gwybodaeth?

Ar y ffôn

Nodwch bob amser 'prif' rif a rhowch groeso i alwadau drwy:

- **'typetalk'** (yn darparu cyswllt rhwng defnyddiwr ffôn testun a pherson sy'n gallu clywed).
- rhif ffôn '**minicom'** (mae hwn yn ddyfais ffôn ar gyfer y byddar a'r rhai anabl o ran lleferydd a phobl sy'n gallu clywed).

Yn bersonol neu'n ysgrifenedig

Cofiwch hysbysebu eich cyfeiriad llawn a'r côd post fel y gall pobl ymweld â chi'n hawdd. Nodwch eich oriau agor arferol, ac os gellir gwneud apwyntiad y tu allan i'r oriau hyn. Os ydych yn annog ymwelwyr, sicrhewch fod ardal y dderbynfa yn gyraeddadwy.

Ffacs

Mae'n well gan rai pobl ddefnyddio ffacs ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer dychwelyd dogfennau sydd angen llofnod.

Ar-lein

Anogwch bobl i gysylltu â chi drwy e-bost ond ystyriwch e-bost generig a ellir ei ddefnyddio gan fwy nag un person ar gyfer ymholiadau cyffredinol, yn hytrach nag un person enwebedig, am y gallant adael ac ati. Dylai'ch gwefan ddangos eich holl fanylion cyswllt a'r gallu i anfon e-bost drwy ddefnyddio ffurflen ar-lein.

Ieithoedd ar wahân i Saesneg / Cymraeg

Ystyriwch ddehongliad ffôn, sy'n eich galluogi i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu tra bod eich ymholwyr ar y ffôn. Dehongliad wyneb yn wyneb - os oes gennych apwyntiad i drafod mater penodol, efallai bydd angen i chi drefnu defnyddio cyfieithydd.

Cyfieithiadau

Ystyriwch wybodaeth a ddosberthir gan eich mudiad ac os byddai'n ddefnyddiol neu'n fuddiol i'r gwaith ysgrifenedig hwn gael ei gyfieithu, a'i fod ar gael mewn ieithoedd heblaw Saesneg. Ystyriwch gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg ar gyfer digwyddiadau mwy.

Fformatau eraill

Print bras

Dylid darparu llythyron a gwybodaeth safonol mewn lleiafswm o faint pwynt 12. Fodd bynnag, dylech gynnig darparu'r wybodaeth mewn maint pwynt mwy os oes angen.

Braille

Cynigiwch eich gwybodaeth ar ffurf Braille. Gall gymryd tua phythefnos i wneud hyn. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r RNIB. Nodwch y gall eich gwybodaeth gael ei gyfieithu i Braille Saesneg neu Braille Cymraeg.

Tâp clywedol

Gellir paratoi gwybodaeth ar dâp ac unwaith eto gall gymryd tua phythefnos. Cysylltwch â'r RNIB neu Wales Council for the Blind am fwy o wybodaeth.

Arwyddwyr (signers)

Efallai bydd angen i chi ddarparu Iaith Arwyddion Brydeinig mewn cyfarfodydd a digwyddiadau. Bydd angen trefnu hwn o leiaf pythefnos ymlaen llaw.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â RNID neu Wales Council for Deaf People.

Gwybodaeth bellach

RNIB
Ffôn: 029 2045 0440
Ffacs: 029 2044 9550
gwenda.fitzpatrick@rnib.org.uk

RNID
Ffôn: 0808 808 0123
Ffôn testun: 0808 808 9000
informationline@rnid.org.uk

Wales Council for the Blind (WCB)
Ffôn: 029 20473954
richard@wcb-ccd.org.uk
www.wcb-ccd.org.uk

Wales Council for Deaf People
Ffôn: 01443 485 687
Ffacs: 01443 408 555
Ffôn testun: 01443 485 686
wcdeaf@freenet.co.uk
www.wcdeaf.org.uk

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Ffôn: 029 2087 8000
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:10/04/2007

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk